CBAC
WJEC

# TGAU

4531/02

## CYMRAEG
### UNED 1
### HAEN UWCH

P.M. DYDD MERCHER, 16 Ionawr 2013

2¼ awr

4531
020001

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Llyfryn ateb 12 tudalen.
Darn Darllen 1 ar gyfer Adran A.
Darn Darllen 2 ar gyfer Adran A.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du.
Mae **tair** adran i'r papur hwn. Dylech ateb **pob** adran.
Mae **tri** chwestiwn yn Adran A.
Mae **un** cwestiwn yn Adran B - dewiswch **un** o'r testunau.
Mae **un** cwestiwn yn Adran C.
Ceisiwch gwblhau Adran A mewn tua 1¼ awr er mwyn sicrhau bod gennych o leiaf 1 awr i gwblhau Adran B ac Adran C.
Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfryn ateb a ddarparwyd.
Ni chaniateir i chi ddefnyddio geiriaduron yn yr arholiad hwn.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Caiff nifer y marciau sydd ar gael ei ddangos mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.
VP*(W13-4531-02)

## ADRAN A

Darllenwch y ddau ddarn darllen ac yna atebwch y **tri** chwestiwn.

Darn Darllen 1: Arolwg Ymwelwyr Cymru
Darn Darllen 2: Y Sw Fynydd Gymreig

- Darllenwch y darnau darllen a'r cwestiynau cyfan yn ofalus. Yna, atebwch y cwestiynau, gan ddefnyddio'r ffeithiau o'r darnau darllen yn unig.
- Wrth ateb dylech roi sylw i gywirdeb iaith a mynegiant. Rhoddir hyd at **10 marc** yn yr adran hon am ansawdd eich iaith a'ch mynegiant ar draws yr holl atebion.

**1. Arolwg Ymwelwyr Cymru (Darn Darllen 1)**

Ar ôl darllen **Darn Darllen 1** atebwch y cwestiynau hyn mewn brawddegau llawn:

(i) Ar ran pwy y cafodd yr ymchwil ei wneud? [1]

(ii) Enwch **ddau** gyngor a gefnogodd y gwaith ymchwil drwy holi twristiaid. [2]

(iii) Beth oedd canran yr ymwelwyr newydd â Chymru a chanran yr ymwelwyr oedd wedi ailymweld yn 2011? [2]

**[5]**

**2. Y Sw Fynydd Gymreig (Darn Darllen 2)**

Mae'r Sw Fynydd Gymreig wedi ennill gwobr Atyniad Gorau Cymru i Dwristiaid.
Ysgrifennwch **adroddiad** papur newydd yn sôn am yr hyn sydd gan y sw i'w gynnig.

Dylech gyfeirio at:

- wybodaeth gyffredinol, cyfleusterau a phethau i'w gwneud
- cadwraeth ac addysg
- rhan y cyhoedd yng ngwaith y sw. [13]

Ysgrifennwch ar ffurf **adroddiad**. [2]

Defnyddiwch wybodaeth o **ddarn darllen 2** yn unig.
Dylech ddefnyddio **eich geiriau eich hun**.
Dylech ysgrifennu rhwng **un** a **dwy** dudalen.

**[15]**

**3.** **Arolwg Ymwelwyr Cymru (Darn Darllen 1)**
**Y Sw Fynydd Gymreig (Darn Darllen 2)**

Edrychwch ar y **ddau** ddarn darllen a dywedwch pa ddarn, yn eich barn chi, sy'n denu sylw'r darllenydd orau a pham.

Dylech gyfeirio at rai o'r canlynol yn y ddau ddarn wrth roi **rhesymau dros eich barn**:

- bwriad yr awdur
- pwy yw'r darllenwyr
- y math o iaith
- nodweddion arddull
- y cyflwyniad e.e. defnydd o brint, lluniau neu liw.

Wrth drafod y ddau ddarn gyda'i gilydd, dylech gyfeirio at **bedwar** peth o Ddarn Darllen 1 a **phedwar** peth o Ddarn Darllen 2.

Dylech **enghreifftio** neu **ddyfynnu** i brofi eich pwyntiau lle bo'n briodol.

**[20]**

**[40 + 10 = 50]**

4531
020003

**TROSODD AR GYFER ADRAN B AC ADRAN C**

## ADRAN B

- Dewiswch **un** o'r testunau canlynol ac ysgrifennwch arno.
- Nodwch rif y cwestiwn.
- Dylai eich ateb fod rhwng **un** a **dwy** dudalen.
- Meddyliwch a chynlluniwch eich gwaith yn ofalus.
- Rhowch sylw manwl i ysgrifennu'n gywir.

**[20 + 20 = 40]**

**4. Naill ai:**

*(a)* **Darn Creadigol**

Dychmygwch eich bod yn ymweld ag un o atyniadau Cymru gyda'ch teulu neu'ch ffrindiau. Ysgrifennwch **ymson** i gyfleu eich argraffiadau a'ch teimladau.

**Neu:**

*(b)* **Darn ffeithiol/ perswadiol**

Ysgrifennwch **araith** ar y testun: Mae gan bob anifail yr hawl i fod yn rhydd.

## ADRAN C

**5. Defnyddio Iaith**

Mae 11 gwall yn y darn isod.

Mae un gwall wedi ei gywiro'n barod fel enghraifft i chi.

**Sain Fagan > Sain Ffagan**

Rhestrwch a chywirwch y **10** gwall arall yn eich llyfryn ateb.

**[10]**

**Amgueddfa Sain Fagan**

Sain Ffagan yw un o brif amgueddfeydd awyr agored Ewrop. Dyma atyniad ymwelwyr mwyaf poblogaidd Cymry.

Agorir Amgueddfa Sain Ffagan i'r cyhoedd am y tro cyntaf yn Gorffennaf 1948. Mae'n sefyll ynghanol garddau hardd Castell Sain Ffagan.

Ymysg yr adeiladau sydd wedi cael eu symud i Sain Ffagan mae tai, ffermdy, ysgol a capel.

Mae gan ni hefyd orielau sy'n arddangos gwisgoedd, bywyd beunyddiol ac offer amaethyddol. Cynhelir arddangosfeydd arbenig yn reolaidd.

Yn rhestr atyniadau rhad ac am ddim gwledydd prydain, mae Amgueddfa Sain Ffagan yn y deg uchelaf.

## DIWEDD Y PAPUR

**TGAU**

4531/02-A

**CYMRAEG**
**UNED 1**
**HAEN UWCH**

P.M. DYDD MERCHER, 16 Ionawr 2013

$2\frac{1}{4}$ awr

**DARN DARLLEN 1 AR GYFER ADRAN A**

ⓗ WJEC CBAC Cyf. 

**DARN DARLLEN 1**

Llywodraeth Cymru

www.cymru.gov.uk

# Adroddiad Arolwg Ymwelwyr Cymru 2011

## Ymchwil ar ran Croeso Cymru

### 1. CYFLWYNIAD

Fel rhan o'r gwaith yn datblygu twristiaeth yng Nghymru, mae Croeso Cymru'n cynnal ymchwil yn rheolaidd i ddarparu gwybodaeth am nodweddion twristiaeth yng Nghymru. Bydd Croeso Cymru yn chwilio am wybodaeth am nifer yr ymwelwyr i Gymru, yr hyn sy'n gwneud eu hymweliad yn un llwyddiannus a pha effaith gaiff twristiaeth ar economi Cymru. Dyma adroddiad yn dilyn ymchwil ymhlith ymwelwyr i Gymru rhwng mis Ebrill a mis Medi 2011.

**Bwriad cyffredinol yr ymchwil oedd gwella dealltwriaeth Croeso Cymru o anghenion ymwelwyr â Chymru a'u rhesymau dros ymweld â Chymru.**

Cytunodd pedwar cyngor i gefnogi'r ymchwil drwy holi ymwelwyr mewn lleoliadau o fewn eu siroedd oedd yn denu twristiaid. Y siroedd hynny oedd:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
- Cyngor Sir Powys
- Cyngor Sir Conwy
- Cyngor Sir Ceredigion

### 2. METHODOLEG

Roedd dau gam i'r ymchwil: yn gyntaf, atebwyd holiadur deng munud gan 4,750 o bobl, ac o'r rhai hynny atebodd 675 o bobl holiadur ar-lein yn dilyn eu hymweliad, sef yr ail gam.

### 3. CRYNODEB O DDARGANFYDDIADAU'R YMCHWIL

Cafwyd y wybodaeth ganlynol o'r ymchwil:

- **Teuluoedd a phobl hŷn gyda'u plant wedi gadael cartref oedd y ddau grŵp mwyaf o ymwelwyr.**
- **O'r holl ymwelwyr a holwyd, roedd bron i dri chwarter wedi aros yng Nghymru o'r blaen:** ar ei uchaf yng Ngogledd Cymru – 81% yn ailymweld.
- **Roedd nifer uchel o'r ymwelwyr yn fodlon gyda'u taith:** roedd bron i hanner (45%) wedi graddio eu hymweliad â Chymru yn 10/10.
- **Roedd yr adborth mwyaf cadarnhaol yn ymwneud â'r amgylchedd naturiol a chyfeillgarwch y bobl.** Cyfleusterau siopa a lleoedd i fwyta oedd yn derbyn ymateb ychydig yn llai cadarnhaol.


- **Roedd dros hanner yr ymwelwyr yn gallu defnyddio'r rhyngrwyd tra oedden nhw ar ymweliad â Chymru:** roedd un rhan o dair wedi defnyddio'r rhyngrwyd i ddod o hyd i bethau yn ystod eu taith.
- **Mae'r arfer o ddefnyddio gwefannau i ddod o hyd i wybodaeth am yr ardal cyn y daith ar gynnydd:** roedd bron i hanner yr ymwelwyr wedi edrych ar wefannau i gael gwybodaeth cyn eu taith.
- **Taflenni gwybodaeth a phamffledi mewn atyniadau a llety yw'r ffynonellau gwybodaeth sy'n cael eu defnyddio amlaf wrth ddewis llefydd i ymweld â nhw:** roedd bron i 60% o'r ymwelwyr wedi cael gwybodaeth o daflenni gwybodaeth a phamffledi.
- **Mewn gwestai canolig a mawr roedd y nifer uchaf o ymwelwyr yn aros:** doedd y ganran oedd yn aros mewn gwestai ddim yn sylweddol uwch nag mewn mannau eraill megis meysydd gwersylla neu fythynnod gwyliau.

## 4. DATA


Tabl 1: Ymwelwyr newydd/ ymwelwyr sy'n ailymweld â Chymru

| | | Ardal o Gymru yr ymwelwyd â hi | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2011 | Gogledd | Canolbarth | De | Gorllewin |
| Ymwelwyr Newydd | 12% | 8% | 12% | 18% | 13% |
| Ailymweld â Chymru | 88% | 92% | 88% | 82% | 87% |
| Maint y sampl | 2,437 | 637 | 1,207 | 373 | 400 |

Siart 2: Cael gwybodaeth cyn ymweld â Chymru




Siart 1: Bodlonrwydd yr ymwelwyr




I gael mwy o wybodaeth ynghylch yr ymchwil cysylltwch â:

Gwybodaeth Gwasanaethau Dadansoddol
Llywodraeth Cymru
Ystad Ddiwydiannol Trefforest
Pontypridd

**TGAU**

4531/02-C

**CYMRAEG**
**UNED 1**
**HAEN UWCH**

P.M. DYDD MERCHER, 16 Ionawr 2013

2¼ awr

**Er gwybodaeth i'r Swyddog Arholiadau.**
**Clawr blaen y papur arholiad yn unig yw'r daflen hon.**
***For the attention of the Examinations Officer.***
***This is the front cover of the examination paper only.***
***English instructions overleaf.***

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur arholiad 4531/02 bydd angen y canlynol arnoch chi:
Llyfryn ateb 12 tudalen
Darn Darllen 1 ar gyfer Adran A
Darn Darllen 2 ar gyfer Adran A.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du.

Mae **tair** adran i'r papur 4531/02. Dylech ateb **pob** adran.

Mae **tri** chwestiwn yn Adran A.

Mae **un** cwestiwn yn Adran B - dewiswch **un** o'r testunau.

Mae **un** cwestiwn yn Adran C.

Ceisiwch gwblhau Adran A mewn tua 1¼ awr er mwyn sicrhau bod gennych o leiaf 1 awr i gwblhau Adran B ac Adran C.

Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfr ateb a ddarparwyd.

Ni chaniateir i chi ddefnyddio geiriaduron yn yr arholiad hwn.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Caiff nifer y marciau sydd ar gael ei ddangos mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

© WJEC CBAC Ltd. 

GCSE

4531/02-C

**WELSH**
**UNIT 1**
**HIGHER TIER**

P.M. WEDNESDAY, 16 January 2013

2¼ hours

***For the attention of the Examinations Officer.***
***This is the front cover of the examination paper only.***

***ADDITIONAL MATERIALS***

*As well as examination paper 4531/02 you will need the following:*
*A 12 page answer booklet*
*Reading Material 1 for Section A*
*Reading Material 2 for Section A.*

***INSTRUCTIONS TO CANDIDATES***

*Use black ink or black ball-point pen.*
*There are* **three** *sections in paper 4531/02. You should answer* **all** *sections.*
*There are* **three** *questions in Section A.*
*There is* **one** *question in Section B - choose* **one** *of the topics.*
*There is* **one** *question in Section C.*
*You are advised to spend approximately 1¼ hours to complete questions in Section A so that you may spend at least 1 hour on Section B and Section C.*
*Write your answers in the answer booklet provided.*
*Dictionaries are not permitted in this examination.*

***INFORMATION FOR CANDIDATES***

*The number of marks is given in brackets at the end of each question or part-question.*

© WJEC CBAC Ltd. 

# Eisiau helpu?

**Clwb y Sw**
Beth am ddod i gyfarfod aelodau o'r sw drwy ddod yn aelod eich hun? Cewch gymryd rhan mewn gweithgareddau hwyliog ac addysgiadol fel gofalu am ddraenogod ac astudio adar brodorol Prydain.

Trefnir y clwb gan Ganolfan Addysg y sw.

**Mabwysiadu**
Mabwysiadu anifail yw un o'r ffyrdd gorau o gefnogi gwaith y sw. Wnaethoch chi erioed feddwl faint o fwyd mae ein teulu o Tsimpansïaid yn ei fwyta bob blwyddyn? Wel dyma'r ateb:
32,850 banana, 2,190 peint o laeth, 14,600 o orennau, 10,950 o foron, 9,123 o datws wedi eu berwi, 17,520 o afalau, 1,095 torth, 6,570 letysen. Mae cost gyfartalog eu bwyd yn fwy na £15,000 mewn blwyddyn. Bydd eich ffi am fabwysiadu yn mynd at dalu i ofalu am yr anifail rydych chi wedi dewis ei fabwysiadu.


**Ceidwad am y Diwrnod**
Gallwch helpu'r sw trwy ddod yn geidwad am ddiwrnod. Bydd eich diwrnod yn cychwyn am 10 a.m. ac yn gorffen am 4 p.m. ac yn costio £160. Am y pris hwn cewch y canlynol:

- Mynediad i'r sw
- Cinio am ddim
- Crys t ceidwad
- Pecyn o nwyddau a thystysgrif
- Bwydo'r anifeiliaid

**Gwirfoddoli**
Gall gwirfoddolwyr helpu drwy gynnal digwyddiadau arbennig, drwy weithio gyda'r anifeiliaid neu weithio yn y swyddfa.


**Y Sw Fynydd Gymreig**
**Yr Hen Brifforrdd**
**Bae Colwyn**
**Conwy**
**LL28 5UY**

**01492 532938**


Ar agor:

| | |
|---|---|
| Ebrill - Hydref | 9.30 - 5.00 |
| Tachwedd - Mawrth | 9.30 - 4.00 |

Ar gau ddydd Nadolig

**Pris Mynediad**

| | |
|---|---|
| Oedolion | £9.95 |
| Plant (3-15) a myfyrwyr | £7.50 |
| Pensiynwyr | £8.80 |
| Tocyn teulu (2 + 2) | £31.40 |

## DARN DARLLEN 2








## Am brofiad bythgofiadwy



Mae'r Sw Fynydd Gymreig yn un o atyniadau gorau Gogledd Cymru. Mae'r sw ar safle yn uchel uwchben Bae Colwyn ac wedi ei lleoli mewn gerddi hardd. Gallwch grwydro'r llwybrau ac ymlacio ar y llethrau glas. Gallwch hefyd dreulio diwrnod bendigedig yn dysgu am lawer o blanhigion prin a rhai sydd mewn perygl. Y pethau pwysicaf yn y sw, wrth gwrs, yw'r anifeiliaid. Mwynhewch Barêd y Pengwiniaid, Cyflwyniad y Tsimpansî, Rhaeadr yr Arth, Hafan Newydd y Condor, Fferm y Plant a llawer mwy. Cofiwch fynd i weld Craig y Morloi Clustiog a dod i wylio Morloi Clustiog Califfornia yn cael eu hyfforddi. Os ydych chi'n hoff o dechnoleg, dewch i weld y Ganolfan Dechnoleg, lle gallwch chwarae gemau ardderchog.





**Bwyta**
Os ydych yn teimlo'n llwglyd neu'n sychedig, mae yna ddau fwyty yn y sw sy'n gwerthu bwyd poeth ac oer yn ogystal â diodydd o bob math. Mae yna siop hufen iâ a siop fferins/losin sydd ar agor yn ystod y cyfnodau prysur hefyd.

**Eisiau rhywbeth i gofio am eich ymweliad?**
Mae gennym ni siop sy'n gwerthu pob math o anifeiliaid – ond nid rhai go iawn, wrth gwrs!

**Byd Antur y Jyngl**
Oes gennych chi blant sy'n hoff o antur? Ydych chi'n blentyn sy'n hoff o antur? Mae yna hwyl anhygoel i blant o bob oedran yn y parc arbennig hwn. Beth am geisio cerdded ar hyd troedffordd Tarzan a theithio drwy'r coed? Bydd eisiau bwyd arnoch ar ôl hyn i gyd!

# Beth sydd i'w wneud a'i weld?

**Arddangosfa Hedfan Anhygoel**
Dewch i weld ein casgliad ardderchog o adar. Cewch weld sgiliau hela'r dylluan a'r hebog yn ein Harddangosfa Hedfan sy'n digwydd ddwywaith y dydd. Hafan y Condor yw cartref newydd ysblennydd Condor yr Andes.

**Cyflwyniad Tsimpansî**
Dewch i wrando ar gyflwyniad newydd sy'n eich cyflwyno i aelodau o deulu'r tsimpansî. Cewch ddysgu sut maent yn byw yn y gwyllt.

**Cyfarfod ag Anifail**
Beth am ddod i fwydo anifail o'ch dewis? Drwy archebu ymlaen llaw, cewch gyfle arbennig i ddysgu am anifeiliaid penodol. Credwn y bydd hyn yn rhoi mwy o fwynhad i chi ac y byddwch hefyd yn gwerthfawrogi a deall yr anifeiliaid yn well. Defnyddir y ffioedd i hyrwyddo gwaith cadwraethol, elusennol ac addysgol y sw.



**Craig y Morloi Clustiog**
Cewch lawer o hwyl yn gwylio Morloi Clustiog Califfornia yn dangos eu hunain yn chwarae a deifio!

# Y pethau pwysig!

**Cadwraeth**
Heddiw, mae pob sw dda a blaengar yn ystyried mai ei phrif swyddogaeth yw cadwraeth. Mae llawer o blanhigion ac anifeiliaid gwyllt dan fygythiad oherwydd bod dyn yn llygru ac yn dinistrio eu cynefinoedd. Mae'r sw yn gwneud gwaith pwysig yn cynnal llawer o blanhigion ac anifeiliaid gwyllt sydd dan fygythiad.

**Gerddi'r Sw**
Ym 1897 prynodd Dr Walter Whitehead, llawfeddyg o Fanceinion, 37 erw o goetir uwchlaw Bae Colwyn. Daeth pensaer tirlunio enwog yn y cyfnod, Thomas Mawson, i gynllunio tiroedd y stad. Cynlluniwyd ac adeiladwyd llwybrau drwy'r coetir, borderi blodau a gerddi rhosod ffurfiol. Erbyn hyn mae gennym gasgliad arbennig o blanhigion trofannol, rhai ohonynt yn brin neu dan fygythiad. Daeth hadau yma o Chile, canolbarth a dwyrain Rwsia ac o Fynyddoedd Himalaya. Fel gyda'r anifeiliaid sydd dan fygythiad, mae ein gwaith gyda'r planhigion prin yn dangos bod cadwraeth yn bwysig iawn i ni.





**Addysg**
Mae addysgu'r cyhoedd yn hollbwysig i ni yma ac rydym yn cynnig llawer o weithgareddau i addysgu unigolion a grwpiau am waith y sw ac am sut i ofalu am anifeiliaid a phlanhigion. Rydym yn cynnig sesiynau dysgu i ysgolion a cholegau, gwersi cadwraeth, profiad gwaith ac adnoddau dysgu. Dewch gyda ni ar daith addysgiadol gyffrous!